

Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Partneriaeth Diogelwch ar y Ffyrdd i Gymru

## 2026 i 2040




Mawrth 2026

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Cynllun Partneriaeth Diogelwch ar y Ffyrdd.**



Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:**
www.llyw.cymru/cynllun-partneriaeth-diogelwch-ar-y-ffyrdd

**E-bost:**

DiogelwchArYFfyrdd@llyw.cymru

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud wrthym ni beth yw eich barn am y fersiwn hawdd ei ddeall hon, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosybols 403527247

# Cynnwys


**Am y cynllun yma** .................... **4**

**Sut wnaethon ni'r cynllun yma** .................... **6**

**Ein Gweledigaeth** .................... **9**

**System ddiogel** .................... **11**

**Ein blaenoriaethau** .................... **17**

**Prif nodau** .................... **25**

**Beth sy'n digwydd nesaf** .................... **27**

# Am y cynllun yma



Rydyn ni eisiau gwneud ffyrdd yng Nghymru yn fwy diogel.

Ein nod ydy:



- Cael llai o farwolaethau ac anafiadau difrifol ar ffyrdd.



- Gwneud trafnidiaeth yn well i bawb.



- Cael mwy o bobl i ddefnyddio trafnidiaeth sy'n well i'r blaned.

Fe fyddwn ni’n canolbwyntio ar ddiogelwch:



- Pobl sy’n cerdded



- Beicwyr
- Marchogion



- Olwynio



- Beicwyr beiciau modur
- Pobl anabl



- Plant
- Pobl ifanc



- Pobl hŷn

# Sut wnaethon ni'r cynllun yma



Yn gynnar yn 2023, fe wnaethon ni ofyn i Agilysis, arbenigwr diogelwch ar y ffyrdd, adolygu ein hen gynllun.



Roedden nhw'n siarad â gwahanol grwpiau a phobl.



Fe wnaeth pobl ddweud beth roedden nhw'n feddwl am faterion diogelwch ar y ffyrdd trwy weithdai ac arolygon.



Rydyn ni wedi cysylltu'r cynllun yma gyda chynlluniau trafnidiaeth eraill a chyfreithiau pwysig.

## Gweithio gyda'n gilydd



Fe fyddwn ni'n gweithio'n agos gyda phartneriaid. Mae hyn yn cynnwys iechyd, diogelwch, yr amgylchedd, addysg a chyfiawnder cymdeithasol.




Mae cyfiawnder cymdeithasol yn meddwl gwneud yn siŵr bod pawb yn cael eu trin yn deg ac yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd.



Drwy weithio gyda'n gilydd, rydyn ni'n gallu gwneud ffyrdd yn fwy diogel i bawb yng Nghymru.


## Cael strwythur gwaith newydd





Fe fydd strwythur newydd yn helpu i reoli diogelwch ar y ffyrdd. Fe fydd y strwythur yn cael ei wneud gan:



**Bwrdd Partneriaeth Strategol**: Cymeradwyo'r gwaith bob blwyddyn. Fe fydd y bwrdd yn cael ei arwain gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am drafnidiaeth.




**Grŵp Partneriaeth Cenedlaethol**: Gosod targedau, adolygu gwaith, a chydlynu gwaith. Maen nhw'n cael eu helpu gan grŵp data a grŵp cyfathrebu.




**Grwpiau cydrannol**: Mae'r rhain yn grwpiau fydd yn canolbwyntio ar 4 maes – ffyrdd a chyflymder, cerbydau, defnyddwyr ffyrdd, ac ymateb i ddamweiniau.



**Grwpiau presennol**: Mae llawer o grwpiau yn gweithio ar ddiogelwch ar y ffyrdd yn barod. Fe fydd rhai grwpiau yn cael eu gwahodd i ymuno â'r strwythur diogelwch ffyrdd newydd.

# Ein Gweledigaeth



Mae'r cynllun yma wedi ei seilio ar **Gweledigaeth Sero**. Mae **Gweledigaeth Sero** yn meddwl:




- Ddylai neb farw na chael ei anafu'n ddifrifol ar ffyrdd.



- Fe ddylai ffyrdd gael eu cynllunio a'u dylunio i gadw pawb yn ddiogel.



- Mae diogelwch ar y ffyrdd yn gyfrifoldeb i bawb.

Fe fydd Gweledigaeth Sero yn ein helpu i adeiladu cymunedau iach, cryf lle:



- Mae plant yn gallu cerdded yn ddiogel i'r ysgol.



- Mae beicio ac olwynio yn fwy diogel.



- Mae busnesau lleol yn gallu tyfu, ac mae pobl yn teimlo'n llai ofnus o draffig.

# System ddiogel



Rydyn ni'n defnyddio'r System Ddiogel i helpu i arwain ein gwaith i wneud ffyrdd yn fwy diogel.




Mae gan y System Ddiogel 6 prif syniad:



**1. Mae pobl yn gwneud camgymeriadau**

Mae pobl yn gwneud camgymeriadau. Ond ddylai camgymeriadau ddim achosi marwolaeth neu anaf difrifol. Mae angen system sy'n lleihau effaith camgymeriadau.



**2. Mae pobl yn gallu cael eu brifo'n hawdd**

Mae ein cyrff yn gallu cael eu hanafu'n ddifrifol mewn damweiniau. Pobl sy'n cerdded, olwynio, beicio, neu ar feiciau modur sydd fwyaf mewn perygl. Mae plant a phobl hŷn yn gallu cael eu brifo'n hawdd.




**3. Dydy marwolaeth ac anaf difrifol ddim yn dderbyniol**

Ddylai neb farw neu gael ei anafu'n ddifrifol ar ein ffyrdd.

**4. Rydyn ni i gyd yn gyfrifol**



Mae gan bawb rôl mewn diogelwch ar y ffyrdd. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n dylunio, cynnal a defnyddio ffyrdd, yn enwedig y rhai sy'n gyrru cerbydau.

Rydyn ni'n cynllunio ymlaen llaw i wneud ffyrdd yn ddiogel. Rydyn ni'n chwilio am risgiau cyn i ddamweiniau ddigwydd ac yn eu datrys.



**5. Gweithredu cyn i broblemau ddigwydd**

Rydyn ni'n cynllunio ymlaen llaw i wneud ffyrdd yn ddiogel. Rydyn ni'n chwilio am risgiau cyn i ddamweiniau ddigwydd ac yn eu stopio.




**6. Mae diogelwch yn gweithio orau pan fydd pob rhan yn gweithio gyda'i gilydd**

Mae angen i ffyrdd diogel weithio gyda'i gilydd:

- Cyflymder diogel
- Ffyrdd diogel
- Cerbydau diogel
- Defnyddwyr y ffordd yn ddiogel
- Help da ar ôl damweiniau

# 5 cam gweithredu y System Ddiogel

Mae 5 prif faes gwaith y byddwn ni'n canolbwyntio arnyn nhw i wneud ffyrdd yn fwy diogel:



**1. Ffyrdd  ac ymylon ffyrdd diogel**

Fe ddylai ffyrdd gael eu cynllunio i stopio damweiniau a phobl yn cael eu hanafu.




**2. Cyflymder diogel**

Fe ddylai cyflymderau gyd-fynd â'r ffordd, y traffig, a'r bobl sy'n eu defnyddio.




**3. Defnyddwyr y ffordd yn ddiogel**

Fe ddylai pob defnyddiwr y ffordd wybod y rheolau a theithio'n ddiogel.



## 4. Cerbydau diogel

Fe ddylai cerbydau amddiffyn pobl y tu mewn a'r tu allan i'r cerbyd. Rhaid archwilio a chynnal a chadw cerbydau fel eu bod yn ddiogel.



## 5. Ymateb ar ôl damwain

Rhaid i'r gwasanaethau brys gyrraedd damweiniau yn gyflym. Fe ddylai pobl gael gofal meddygol da a chefnogaeth ar gyfer eu hiechyd meddwl a materion eraill ar ôl damweiniau.

**Er mwyn i'r System Ddiogel weithio'n dda, mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr bod popeth yn gweithio gyda'i gilydd. Er enghraifft:**



- Rhaid i bawb weithio gyda'i gilydd i wneud ffyrdd yn fwy diogel.



- Rydyn ni angen syniadau a chyllid newydd i wella diogelwch.




- **Rydyn ni'n adolygu ac yn gwella deddfau i ddarparu'r System Ddiogel.**




- Rhaid i bobl sy'n defnyddio, rheoli neu ddylunio ffyrdd ddilyn safonau.




- Rhaid i ffyrdd, cerbydau a thechnoleg gael eu cynllunio ar gyfer diogelwch.



- Rydyn ni'n addysgu pobl am ddefnydd diogel ar y ffyrdd. Rydyn ni'n cynnal ymgyrchoedd ac yn darparu arweiniad i bawb.




- Rhaid dilyn y gyfraith. Mae ymddygiad peryglus yn cael ei gosbi. Rhaid i'r gyfraith a'r rheolau fod yn deg ac yn gyson.



- Rydyn ni'n edrych ar ddiogelwch ar y ffyrdd yn rheolaidd. Rydyn ni'n defnyddio'r wybodaeth yma i wella'r system.

# Ein blaenoriaethau

## Gwneud ffyrdd yn fwy diogel a rheoli cyflymder

**Camau gweithredu allweddol:**



- Adolygu sut mae cyflymder yn cael ei reoli gan ddefnyddio terfynau cyflymder, ffyrdd mwy diogel, addysg a phlismona.




- Helpu pobl i ddilyn y terfynau cyflymder 20 milltir yr awr mewn pentrefi, trefi a dinasoedd.



- Gwella strydoedd i gefnogi cerdded, olwynio a beicio.



- Cadw ffyrdd a phalmentydd yn dda.



- Dylunio ffyrdd fel eu bod yn cyd-fynd â'r terfyn cyflymder.



- Gwahanu traffig a phobl lle mae'n bosibl.



- Defnyddio syniadau System Ddiogel ym mhob cynllunio a gwaith ffyrdd.



- Defnyddio gwybodaeth a thechnoleg newydd i stopio damweiniau.

## Gwneud cerbydau'n fwy diogel gyda thechnoleg newydd

**Camau gweithredu allweddol:**




- Prynu'r cerbydau mwyaf diogel ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.



- Cefnogi gyrwyr newydd i gyflwyno technoleg diogelwch yn eu cerbydau.



- Hyrwyddo sgoriau cynnal a chadw a diogelwch rheolaidd cerbydau.



- Cefnogi negeswyr a gyrwyr dosbarthu a beicwyr i yrru'n ddiogel.



- Dod o hyd i ffyrdd o leihau risgiau o flinder a gyrru anniogel.



- Gweithio gyda DVSA a’r heddlu i wneud yn siŵr bod cerbydau’n ddiogel i’w defnyddio ar ffyrdd. Mae DVSA yn asiantaeth y llywodraeth. Maen nhw’n cynnal profion gyrru. Maen nhw’n cymeradwyo pobl i fod yn hyfforddwyr gyrru a phrofwyr MOT.  Maen nhw’n gwneud archwiliadau ar ochr y ffordd ar yrwyr, bysiau a lorïau.



- Gweithio gyda Llywodraeth y DU i hyrwyddo technolegau diogelwch newydd ar gyfer ceir a beiciau modur.



- Annog sefydliadau i redeg cerbydau diogel a chyflogi gyrwyr diogel.



- Gweithio gyda Llywodraeth y DU i wneud yn siŵr y bydd cerbydau di-yrrwr yn ddiogel ar ein ffyrdd.

## Addysgu defnydd diogel ar y ffyrdd a diogelu pobl sydd mewn perygl

**Camau gweithredu allweddol:**



- Hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd fel cyfrifoldeb pawb.




- Hyrwyddo deddfau gyrru a thrwyddedu mwy diogel. Adolygu cyfreithiau diogelwch ar y ffyrdd cyfredol.



- Defnyddio technoleg i ddod o hyd i yrru sydd ddim yn ddiogel. Er enghraifft, peidio â defnyddio gwregys diogelwch neu ddefnyddio ffonau wrth yrru.



- Hyrwyddo gyrru'n ddiogel i'r gwaith.



- Addysgu plant am ddiogelwch ar y ffyrdd a theithio llesol mewn ysgolion.



- Cefnogi Llywodraeth y DU i wneud rheolau diogelwch cerbydau. Er enghraifft, archwiliadau golwg, cymryd seibiannau, profion cyffuriau ac alcohol.



- Stopio defnyddio e-sgwteri ac e-feiciau anghyfreithlon.



- Cefnogi Llywodraeth y DU i ostwng terfynau yfed a gyrru. Helpu i wneud cosb gyrru cyffuriau yn gyflymach.



- Gwella hyfforddiant diogelwch ar y ffyrdd i blant.



- Gwella dysgu diogelwch ar y ffyrdd i oedolion.

**Gwella gofal brys, cefnogi dioddefwyr a theuluoedd. Dysgu o ddamweiniau i wneud ffyrdd yn fwy diogel**

**Camau gweithredu allweddol:**



- Gwasanaethau brys i weithio'n agos gydag eraill ym maes diogelwch ar y ffyrdd.



- Gwella adrodd am anafiadau ar draws Cymru.




- Gwella amseroedd ymateb brys.




- Hyrwyddo eCall i gael help yn gyflymach.
  Mae eCall yn system mewn ceir. Mae'n galw'r gwasanaethau brys os oes damwain. Mae'n dweud wrthyn nhw lle mae'r car.



- Darganfod ffyrdd newydd o roi cymorth brys. Er enghraifft, hyfforddi pobl sut i ymateb mewn argyfyngau.




- Gwneud cynlluniau gofal iechyd clir ar gyfer pobl sydd wedi’u hanafu mewn damweiniau.



- Edrych ar sut mae gwasanaethau yn gallu gweithio gyda’i gilydd i ddeall damweiniau difrifol yn well.



- Cynnig cefnogaeth emosiynol i ddioddefwyr, teuluoedd a thimau brys.

# Prif nodau




**Rydym hefyd eisiau:**

- Llai o farwolaethau ac anafiadau difrifol i holl ddefnyddwyr y ffordd - cerdded, olwynio a beicio.



- Llai o farwolaethau ac anafiadau difrifol i blant, pobl ifanc, a phobl hŷn.




Gyda'r prif nodau, mae gennym ni nodau eraill ar gyfer diogelwch ar y ffyrdd.

**Rydyn ni eisiau:**



- Lleihau llygredd traffig.



- Annog mwy o gerdded, olwynio ac beicio.



- Helpu mwy o bobl i ddefnyddio ffyrdd yn annibynnol. Mae hyn yn cynnwys pobl anabl.



Fe fyddwn ni'n cytuno ar sut i fesur y nodau yma yn y flwyddyn gyntaf.

# Beth sy'n digwydd nesaf

Fe fyddwn ni yn:



- Sefydlu system i gefnogi diogelwch ar y ffyrdd.



- Helpu pawb i weithio gyda'i gilydd.



- Gwneud strwythur i arwain y cynllun.



- Gosod targedau diogelwch.



- Annog cerdded, olwynio, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus



- Edrych ar sut rydyn ni'n gwneud gyda diogelwch ar y ffyrdd bob blwyddyn a gwneud adolygiad mawr bob 5 mlynedd.



- Gweithio gyda llywodraethau'r DU a llywodraethau eraill i rannu'r syniadau gorau.




- Helpu busnesau a gyrwyr i fod yn fwy diogel.




- Rhannu’r data diogelwch cyfredol.



- Addysgu pobl am ddiogelwch ar y ffyrdd.



- Rhannu data rhwng partneriaid.




- Gwneud cynllun ar gyfer diogelwch gyrru sy’n gysylltiedig â gwaith.




- Gweithio gyda'r Gwasanaethau Tân ac Achub i stopio damweiniau.




- Cefnogi'r gwaith o redeg GoSafe.

  Mae GoSafe Cymru yn bartneriaeth rhwng yr heddlu, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd i wneud ffyrdd yng Nghymru yn fwy diogel.